OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1022

## Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Gweinyddu) (Cymru) 2017

## RHAN 3

### Cyfraddau llog

**Ystyr "cyfradd Banc Lloegr"**

**5.**—(1) Yn y Rhan hon, "cyfradd Banc Lloegr" sy'n gymwys ar gyfer diwrnod yw'r gyfradd banc swyddogol a gyhoeddwyd ddiwethaf yng nghyfarfod Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr a gynhaliwyd cyn y diwrnod hwnnw.

(2) Ond pan fo diwrnod yn dod o fewn 3 diwrnod gwaith i gyfarfod y gwnaed y cyhoeddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) ynddo, ystyr "cyfradd Banc Lloegr" ar gyfer y diwrnod hwnnw yw'r gyfradd a bennir o dan y paragraff hwnnw fel pe na bai'r cyfarfod hwnnw wedi ei gynnal.

**Cyfradd llog taliadau hwyr**

**6.** Y gyfradd llog taliadau hwyr at ddibenion adran 157 o'r Ddeddf CRhT yw'r ganran y flwyddyn a ganfyddir drwy ddefnyddio'r fformiwla a ganlyn—

$$\text{cyfradd Banc Lloegr} + 2.5$$

**Cyfradd llog ad-daliadau**

**7.** Y gyfradd llog ad-daliadau at ddibenion adran 161 o'r Ddeddf CRhT yw pa un bynnag o'r canlynol sydd uchaf—

(a) 0.5% y flwyddyn; a

(b) cyfradd Banc Lloegr.